Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Waunfawr

**Waunfawr**
**Caernarfon**
**Gwynedd**
**LL55 4LJ**

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Waunfawr

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Waunfawr |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 120 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 87 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 12 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 13.5% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 15.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 75.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2020 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 22/04/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Waunfawr yn ysgol hapus, deuluol a chroesawgar. Mae'r holl staff yn cydweithio'n effeithiol i greu ethos gofalgar, Cymreig a diogel lle mae staff a disgyblion yn gofalu'n naturiol am ei gilydd. Mae gofal a pharch yn treiddio trwy'r ysgol ac mae'r berthynas waith gefnogol rhwng y staff a'r disgyblion yn adeiladu hyder ac yn eu cefnogi i fwynhau eu cyfnod yn yr ysgol yn fawr iawn. Maent yn hapus i'w mynychu, yn ymddwyn yn dda, ac yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu.

Mae naws Gymreig gryf yn bodoli yn yr ysgol gyda nodwedd amlwg i ddarparu ystod o brofiadau gwerthfawr gyda phwyslais clir ar hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o'u milltir sgwâr, a hanes a thraddodiadau Cymru. Mae hyn yn dwysáu eu balchder o'u hysgol a'r gymuned ehangach ac yn creu ymdeimlad cryf o berthyn.

Mae athrawon yn darparu profiadau dysgu cyfoethog ac ysgogol sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae hyn yn eu galluogi i ddatblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt i fanteisio ar gwricwlwm cyfan. Mae gan ddisgyblion lais cryf ym mywyd yr ysgol ac maent yn mwynhau'r cyfleoedd a gânt i ddylanwadu ar beth maent yn dymuno ei ddysgu o fewn thema'r tymor. Maent yn ffynnu trwy gyfrannu at amrywiaeth o gynghorau sy'n cael effaith gadarnhaol ar fywyd yr ysgol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos cymhelliant cryf, diddordeb chwilfrydig yn eu dysgu, ac yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Er hyn, ar adegau, nid ydynt yn cael digon o gyfleoedd i benderfynu drostynt eu hunain sut i ymateb i weithgareddau'n gynyddol annibynnol.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth effeithiol a chefnogol sy'n rhoi cyfeiriad clir i'r ysgol. Caiff gefnogaeth gref gan staff ymroddedig sy'n cydweithiol â'i gilydd yn dda fel tîm, ac yn rhannu cyfrifoldebau yn synhwyrol. Maent yn dangos ymrwymiad cryf i hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy. Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth dda o waith yr ysgol ac maent yn cefnogi'r ysgol yn effeithiol.

## Argymhellion

A1 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau am sut maent yn trefnu a chyflwyno eu gwaith, ac ymateb i weithgareddau dysgu yn gynyddol annibynnol

A2 Ehangu'r cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i adborth yn amserol er mwyn iddynt wybod beth i'w wneud i wella a datblygu eu gwaith ymhellach

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cychwyn yn yr ysgol gyda medrau tua’r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu cam datblygiad, heblaw am eu medrau Cymraeg, sydd yn iaith newydd i ychydig ohonynt. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae’r rhan fwyaf, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni’n dda.

Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn hyderus a chwrtais. Mae’r disgyblion sy’n hwyrddyfodiaid i’r Gymraeg yn magu hyder yn gyflym ac yn ymateb yn gadarnhaol i’r anogaeth gan staff i ddefnyddio’r iaith yn ystod eu gweithgareddau. Mae’r disgyblion ieuengaf yn gwrando â diddordeb cynyddol ac yn datblygu hyder i siarad yn ystod gweithgareddau a sesiynau chwarae yn effeithiol, er enghraifft wrth chwarae rôl yn y feddygfa. Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion hynaf yn siarad Cymraeg yn hollol naturiol, gyda llawer yn defnyddio iaith gyfoethog a geirfa bwrpasol wrth drafod eu gwaith. Maent yn mynegi eu hunain yn aeddfed yn y Gymraeg a’r Saesneg, er enghraifft wrth esbonio sut aethant ati i greu modelau o’r galon.

Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn llwyddiannus. Mae’r disgyblion ieuengaf yn dangos brwdfrydedd at ddarllen ac yn cyflawni hyn yn gynyddol hyderus. Mae llawer yn hapus i fynd i’r afael â geiriau anghyfarwydd gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau darllen pwrpasol. Mae rhan fwyaf o’r disgyblion hynaf yn darllen yn ddeallus mewn cyd-destunau amrywiol yn Gymraeg a’r Saesneg. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o’u medrau darllen i gywain gwybodaeth o lyfrau a thestunau amrywiol ac o wefannau priodol, er enghraifft wrth ymchwilio a chyflwyno gwybodaeth i gefnogi eu gwaith am chwedlau Groegaidd hynafol.

Mae medrau ysgrifennu cynnar y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n gelfydd. Maent yn gwneud marciau’n bwrpasol y tu mewn a thu allan i’r dosbarth ac yn dechrau ffurfio llythrennau ac ysgrifennu geiriau syml. Wrth iddynt symud drwy’r ysgol, mae gwaith y rhan fwyaf a ddisgyblion yn datblygu’n effeithiol. Maent yn ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd ac at wahanol ddibenion. Wrth i’w medrau ddatblygu, mae llawer yn defnyddio ystod dda o atalnodi a sillafu geiriau mwy cymhleth yn gywir. Ar frig yr ysgol, mae llawer yn defnyddio geirfa gyfoethog yn y ddwy iaith ac yn trefnu eu gwaith yn synhwyrol, gan ddefnyddio paragraffau’n gywir. Mae’r disgyblion mwy abl yn cyfoethogi eu hysgrifennu gan ddefnyddio idiomau, cymariaethau, a geirfa ymestynnol i ychwanegu lliw a diddordeb i’w gwaith, er enghraifft wrth ysgrifennu dyddiadur plentyn o Gwm Celyn.

Mae medrau rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gadarn ar draws yr ysgol. Maent yn cymhwyso eu medrau rhif, yn dangos gafael gadarn o nodweddion siâp, ac yn trin data yn hyderus mewn gwahanol gyd-destunau cyfoethog. Er enghraifft, erbyn Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn defnyddio gwahanol offer yn gywir i fesur a chymharu maint gwahanol wrthrychau yn yr ardal allanol. Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion hynaf yn gweithio’n hyderus gyda phedair rheol rhif ac yn datblygu medrau cadarn wrth drin data. Ar frig yr ysgol, mae llawer yn adalw ffeithiau rhif i gof yn

gyflym wrth ddatrys problemau dau gam. Maent yn cymhwyso'n eu medrau mesur yn llwyddiannus, er enghraifft wrth gymharu rhychwant adenydd adar gwahanol.

O oedran cynnar, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio amrediad cynyddol o offer digidol a meddalwedd yn hyderus mewn gwahanol gyd-destunau i gefnogi eu dysgu, er enghraifft wrth gofnodi eu gwaith yn yr ardal berfformio. Mae llawer o'r disgyblion hynaf yn cymhwyso eu medrau digidol yn effeithiol i gefnogi eu medrau ymchwil, er enghraifft wrth greu a chyflwyno animeiddiad i arddangos prif rannau planhigyn. Maent yn trin data'n hyderus, er enghraifft wrth ymchwilio i effaith ymarfer corfforol ar guriad y galon.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau creadigol, artistig a chorfforol yn gelfydd gan ddefnyddio ystod o ddeunyddiau a thechnegau. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio gwahanol fwyd i greu collage lliwgar o dirweddau gwahanol yr Affrig. Mae'r llawer o'r disgyblion hynaf yn amrywio tôn a lliw yn ofalus, er enghraifft wrth efelychu gwaith artistiaid enwog o Gymru a thu hwnt. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn cymhwyso eu medrau creadigol yn gelfydd trwy ddrama, chwarae rôl a pherfformio'n gyhoeddus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau corfforol da drwy'r ystod o weithgareddau ysgogol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn symud gyda rheolaeth dda o'r corff ac yn dwyn dysgu blaenorol i gof wrth arddangos gwahanol siapiau yn grefftus. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r disgyblion yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn amrywiaeth o weithgareddau fel nofio a chyfeiriannu a chystadlaethau amrywiol. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o sut i ofalu am eu hiechyd a'u ffitrwydd.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae bron bob disgybl yn teimlo'n hapus a diogel o fewn amgylchedd gynhwysol, ofalgar a chartrefol yr ysgol. Mae perthnasoedd gwaith cynnes a phwrpasol rhyngddynt a'r staff yn sicrhau eu bod yn gwybod at bwy i droi am gymorth a chefnogaeth. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn dangos cwrteisi a pharch tuag at ei gilydd. Maent yn dangos gofal ac ystyriaeth sensitif at eu cyfoedion wrth gydweithio ar dasgau dysgu ac yn ystod amseroedd egwyl. Mae'r modd y mae'r disgyblion hynaf, drwy weithgarwch y 'Ffrindiau Ffeind', yn gofalu am ac yn cymryd cyfleoedd i addysgu'r disgyblion ieuengaf, yn adlewyrchu hyn yn effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu ac yn dangos diddordeb amlwg yn eu gweithgareddau. Maent yn ymroi'n gadarnhaol i'r arlwy gyfoethog o brofiadau dysgu a ddarperir ar eu cyfer ac yn siarad yn frwdfrydig am eu gwaith. O oedran cynnar, mae disgyblion yn ymgyfarwyddo'n gyflym â threfniadau dosbarth wrth ddewis tasgau mewn gwahanol ardaloedd o'r ddarpariaeth ac yn symud yn rhwydd rhwng gweithgareddau dysgu. Maent yn barchus am gyfraniadau a chyflawniadau ei gilydd ac yn hapus i ddysgu mewn amrywiol sefyllfaoedd, fel parau, mewn grwpiau ac fel dosbarth cyfan. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos dyfalbarhad a'r gallu i ganolbwyntio am gyfnodau estynedig yn dda, er enghraifft wrth i'r disgyblion ieuengaf ddilyn rysáit coginio bara brith yn y gegin fwd ar gyfer milwyr Rhyfel y Crimea.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu gwytnwch cynyddol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Caiff hyn ei amlygu, er enghraifft, wrth iddynt wynebu sefyllfaoedd anghyfarwydd a heriol. Maent yn gweithio'n gynhyrchiol o fewn ffiniau amser, gyda'r disgyblion hynaf yn cymryd cyfrifoldeb yn gynyddol am amseru eu tasgau. Mae llawer yn dangos parodrwydd i weithio'n annibynnol ac i gymryd perchnogaeth o'u dysgu. Er hyn, ar adegau, mae lleiafrif y disgyblion yn or-ddibynnol ar arweiniad oedolion ac, o ganlyniad, nid ydynt yn datblygu eu medrau dysgu yn ddigon effeithiol er mwyn trefnu a chyflwyno eu gwaith yn gynyddol annibynnol.

Mae llais disgyblion yn cael lle canolog ym mywyd a gwaith yr ysgol. Mae disgyblion yn cael rhan arweiniol wrth cynnig syniadau o ran dewis eu themâu dysgu. Mae llawer yn hyderus i ymgymryd â rolau arweiniol o fewn y dosbarth, a hynny'n gynyddol effeithiol wrth iddynt aeddfedu. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn ymgymryd â rôl yr athro i arwain gweithgareddau medrau sylfaenol fel tasg mathemateg pen yn ystod cyfnodau cofrestru gan ddangos y gallu i feddwl yn fyrfyfyr wrth greu 'problemau' i'w cyd-ddisgyblion. Maent yn gwneud defnydd da o'r cyfleoedd i ddatblygu eu medrau arwain trwy ystod o rolau a chynghorau llais y disgybl. Mae'r aelodau yn ymgymryd â'u rolau a'u dyletswyddau yn aeddfed a chydwybodol. Maent yn dangos balchder yn y modd maent yn cael dylanwad ar fywyd a gwaith eu hysgol. Er enghraifft, mae'r Criw Siarter Iaith yn fodelau iaith cyson wrth ddarllen llyfrau Cymraeg i'r disgyblion ieuengaf yn wythnosol, ac wedi sefydlu cornel ddarllen llyfrau Cymraeg a threfnu cystadleuaeth 'Cymry Talentog'.

Mae bron pob disgybl yn datblygu dealltwriaeth gadarn o werthoedd a sut i ddatblygu'n ddinasyddion egwyddorol a chyfrifol. Maent yn barod iawn i drafod eu teimladau ac i fod yn sensitif a pharchus tuag at deimladau eraill, er enghraifft yn ystod amseroedd cylch. Trwy ystod o weithgarwch, gan gynnwys gwaith y cynghorau ysgol, maent yn datblygu empathi tuag at eraill sy'n wynebu amgylchiadau anodd. Enghraifft dda o hyn yw'r modd y mae'r disgyblion yn awyddus i arwain a threfnu gweithgareddau i gefnogi elusennol lleol a chenedlaethol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd gwneud dewisiadau cyfrifol i warchod eu hiechyd corfforol ac emosiynol. Maent yn deall sut i wneud dewisiadau bwyta'n iach a'r angen i gadw'r corff a'r meddwl yn iach, er enghraifft trwy yfed dŵr yn rheolaidd a bwyta ffrwythau ar adegau egwyl. Yn ogystal, maent yn ymrwymo i weithgareddau pwrpasol, er enghraifft yn ystod sesiynau hybu meddylgarwch. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw eu hunain ac eraill yn ddiogel, gan gynnwys cadw'n ddiogel ar-lein. Maent yn cymhwyso hyn yn effeithiol wrth gyflawni eu gweithgareddau dysgu. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd mynychu'r ysgol yn gyson a phrydlon, sy'n cyfrannu'n effeithiol at wella'r cyfraddau presenoldeb diweddar.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae gan y pennaeth a'r staff weledigaeth glir a chadarn ar gyfer cwricwlwm yr ysgol sy'n adlewyrchu natur a chyd-destun y gymuned, gan gynnwys gweithgareddau dysgu sy'n ymgorffori natur ieithyddol a diwylliannol yr ardal. Mae staff yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu cwricwlwm cyfoethog ac eang sy'n sicrhau dilyniant a datblygiad ym medrau'r disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r ddarpariaeth yn ymgorffori gweledigaeth yr ysgol yn fwriadus ac yn cwmpasu holl agweddau dysgu a phrofiad Cwricwlwm i Gymru yn effeithiol. Mae staff yn annog disgyblion i fynegi barn

am yr hyn yr hoffent ei ddysgu ac i gynnig eu syniadau eu hunain wrth gynllunio themâu newydd, ac yna'n defnyddio'u hawgrymiadau wrth baratoi'r gweithgareddau dysgu. Mae hyn yn sicrhau bod gan ddisgyblion berchnogaeth dros yr hyn maent yn ei ddysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn dangos brwdfrydedd a diddordeb yn eu dysgu.

Mae gan staff wybodaeth dda am wahanol feysydd ac maent yn creu amgylcheddau dysgu pwrpasol lle mae disgyblion yn datblygu eu dychymyg a'u medrau datrys problemau, ac yn archwilio a darganfod drostynt eu hunain yn werthfawr. Maent yn paratoi gweithgareddau ysgogol a diddorol sy'n cefnogi'r disgyblion i gymhwyso eu medrau ar draws y cwricwlwm yn effeithiol. Ar y cyfan mae staff yn gweud defnydd effeithiol o'r ardaloedd dysgu mewnol a thu allan sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu medrau'r disgyblion. Fodd bynnag, cyfyng yw'r cyfleoedd i'r disgyblion hynaf ddefnyddio'r ardaloedd allanol.

Mae staff yn cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion gydag ystod o ymwelwyr ac ymweliadau difyr. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn ymweld â'r capel lleol i gynnal priodas ffug ac yn ymweld a'r llyfrgell yng Nghaernarfon er mwyn hyrwyddo'u diddordeb ym myd llyfrau. Mae'r disgyblion hynaf yn ymweld â chanolfan RSPB Conwy i atgyfnerthu eu gwaith thema ar adar. Mae staff yn gwahodd y rhieni yn rheolaidd i'r ysgol i rannu eu harbenigedd i gyfoethogi profiadau'r disgyblion. Er enghraifft, daeth thema'r disgyblion ieuengaf, O'r Fferm i'r Fforc, yn fyw iddynt wrth i ebol bychan ymweld â nhw ar fuarth yr ysgol.

Mae'r holl staff yn creu perthnasoedd gwaith cadarn â'r disgyblion sy'n meithrin amgylchedd gefnogol ar gyfer dysgu. Maent yn adnabod anghenion addysgol bob disgybl yn dda ac yn annog a chanmol eu hymdrechion yn gyson. Mae gan staff ddisgwyliadau uchel o ymddygiad da gan bob disgybl, ac o ganlyniad, maent yn dangos parch a chwrteisi tuag at oedolion a'u cyfoedion. Defnyddir dulliau gwobrwyo effeithiol i ddathlu ymdrech ac agweddau cadarnhaol disgyblion.

Mae'r holl staff yn cyfathrebu â'r disgyblion gan ddefnyddio Cymraeg safonol a graenus i atgyfnerthu iaith lafar y disgyblion. Mae ethos Cymreig cryf yn hybu disgyblion i wneud defnydd effeithiol o'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd ysgol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog hyderus a chymwys yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu ac adnoddau amrywiol i gymell dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn holi'r disgyblion yn dreiddgar sy'n eu cefnogi i adalw dysgu blaenorol ac i wirio'u dealltwriaeth ac i ymestyn eu hymdrechion ymhellach. Mae athrawon yn rhannu amcan y sesiynau yn gyson, ac mae'r disgyblion hynaf yn cael cyfle pwrpasol i gyfrannu at y broses o bennu'r meini prawf llwyddiant ar gyfer eu dysgu. Yn ei dro, mae hyn yn arwain at welliannau yn safon gwaith y disgyblion. Yn yr arfer orau, mae staff yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol sy'n annog disgyblion i ddatblygu eu hannibyniaeth o oedran cynnar, gan sicrhau mynediad at wahanol weithgareddau sy'n ennyn a chynnal eu diddordeb yn llwyddiannus. Er hyn, mae tueddiad, ar adegau, i staff arwain gweithgareddau dysgu yn ormodol sy'n cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion benderfynu sut maent yn trefnu a chyflwyno eu gwaith ac ymateb i weithgareddau'n gynyddol annibynnol.

Mae staff yn cynnig adborth llafar buddiol sy’n annog disgyblion i ystyried yr hyn maent wedi ei gyflawni ac i wybod sut i wella eu gwaith. Mae athrawon yn ymateb yn briodol i waith disgyblion mewn llyfrau, gan gynnig sylwadau defnyddiol ar gyfer gwella. Er hynny, nid oes cyfleoedd digon amserol i ddisgyblion ymateb i’r adborth er mwyn adeiladu a datblygu ar eu gwaith da, a’i wella ymhellach.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae’r berthynas waith agos rhwng staff a’r disgyblion, ac ymhlith y disgyblion eu hunain, yn arwain at gymuned ofalgar ac ethos teuluol, cyfeillgar a chynnes sy’n cefnogi ymdeimlad o berthyn. Mae staff yn adnabod y disgyblion a’u teuluoedd yn arbennig o dda ac maent yn ymateb yn bwrpasol i’w hanghenion emosiynol a chymdeithasol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les a brwdfrydedd disgyblion at ddysgu ac yn cael ei adlewyrchu yn eu hymddygiad cadarnhaol.

Mae trafodaethau staff ynghyd â’r ymagwedd o fonitro cyson ac olrhain cynnydd disgyblion yn cyfrannu’n llwyddiannus at adnabod darlun clir a chyfredol o anghenion pob disgybl. Mae hyn yn gymorth pendant i adnabod a gweithredu’n gynnar wrth ymateb i anghenion unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi disgyblion sydd ag ADY yn drefnus ac effeithiol. Mae’r pennaeth, sy’n gweithredu fel cydlynydd ADY, yn cydweithio’n agos â’r athrawon a’r staff i ddarparu cefnogaeth fuddiol, gan gynnwys ystod o ymyraethau sy’n diwallu anghenion y disgyblion hynny sy’n destun pryder yn dda. Mae staff yn cynnwys disgyblion, rhieni a barn asiantaethau allanol i gynllunio camau nesaf disgyblion yn eu dysgu yn effeithiol.

Mae hyrwyddo’r Gymraeg a’r defnydd o’r iaith o fewn yr ysgol ac yn gymdeithasol yn nodwedd naturiol a chryf o’r ysgol. Mae staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i aelodau brwdfrydig cyngor Siarter Iaith i arwain gweithgareddau sy’n cael effaith gadarnhaol ar yr elfen hon o waith yr ysgol. Un o gryfderau’r ysgol yw’r modd mae staff yn hyrwyddo a datblygu dealltwriaeth disgyblion o’u hunaniaeth, eu treftadaeth a’u diwylliant. Mae disgyblion yn manteisio ar gyfleoedd gwerthfawr i ddathlu eu Cymreictod ac i deimlo eu bod yn perthyn i’r ardal leol.

Mae ethos yr ysgol a’r sesiynau cydaddoli yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn fwriadus a llwyddiannus. Mae staff yn annog disgyblion i fyfyrio ar werthoedd fel tegwch, cyfeillgarwch a charedigrwydd ac i ystyried safbwyntiau eraill yn sensitif, er enghraifft yn ystod cyfnodau amser cylch a sesiynau hybu meddylgarwch. Mae dysgu am Gristnogaeth a chrefyddau eraill yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd goddefgarwch a datblygu gwerthoedd fel parch ac empathi. Mae’r cyswllt â’r capel lleol ar gyfer dathlu gwyliau’r Diolchgarwch a’r Nadolig yn cyfrannu’n fuddiol ar gyfer datblygu gwybodaeth y disgyblion am yr agweddau hyn.

Mae’r ysgol a’i hardal leol yn destun balchder amlwg i holl gymuned yr ysgol. Gwna staff bob ymdrech i fanteisio ar y cyfoeth o gyfleoedd dysgu o’u hamgylch, er enghraifft i ymweld â’r feddygfa leol a chyflawni gweithgareddau cyfeiriannu ar Foel Eilio. Caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i ddysgu am y byd ehangach, er enghraifft drwy ddysgu am fywyd mewn gwledydd eraill, er enghraifft wrth drafod y gwahaniaethau rhwng bywyd yn Botswana a’u bywyd nhw yma yng Nghymru. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn dechrau datblygu eu hymwybyddiaeth o ba

mor amrywiol yw cymdeithas heddiw. Mae'r ysgol wedi cymryd camau i ddechrau dysgu ieithoedd tramor, Ffrangeg a Sbaeneg i'r disgyblion hynaf, sy'n profi'n boblogaidd ac yn fodd o ehangu eu gorwelion yn llwyddiannus.

Mae datblygu ymwybyddiaeth a gwybodaeth disgyblion am faterion amgylcheddol a phwysigrwydd gwarchod y blaned yn cael sylw da o fewn y ddarpariaeth. Mae aelodau'r cyngor eco yn frwdfrydig dros eu cyfrifoldebau ac yn chwarae rhan flaenllaw gyda'r agweddau hyn, er enghraifft drwy arwain gweithgarwch ailgylchu o fewn y dosbarthiadau. Mae rhain yn gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gyfrannu'n ymarferol ac uniongyrchol sy'n fodd effeithiol o ddysgu am y materion hyn yn fwy ystyrlon a pherthnasol.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd bwriadus ar gyfer datblygu dealltwriaeth disgyblion o sut i gadw'n iach yn gorfforol ac emosiynol. Caiff disgyblion eu hannog i yfed dŵr yn gyson ac i fwyta ffrwythau yn ystod adegau egwyl. Yn ogystal, rhoddir pwyslais amlwg ar ddarparu cyfleoedd pwrpasol a llwyddiannus i hybu ffitrwydd corfforol disgyblion trwy gymryd rhan mewn gweithgarwch ymarfer corff ac ystod dda o chwaraeon a thwrnameintiau.

Mae diwylliant diogelu'r ysgol yn gadarn, ac mae pob un o'r staff yn deall eu bod i gyd yn rhan o sicrhau diogelwch a lles disgyblion. Hyrwyddir dealltwriaeth y disgyblion i'w cynorthwyo i gadw eu hunain yn ddiogel wrth ddysgu ar-lein. Mae'r ysgol yn gweithredu strategaethau cadarn i hyrwyddo prydlondeb a phresenoldeb rheolaidd ymhlith disgyblion, gan gynnwys monitro dyddiol, cyfathrebu'n rheolaidd â rhieni a gwaith dilynol wedi'i gefnogi gan yr awdurdod lleol. O ganlyniad, mae cyfraddau presenoldeb yn gwella'n raddol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, sy'n seiliedig ar greu amgylchedd dysgu hapus, croesawgar a chynhwysol lle caiff bob unigolyn gyfle i ddatblygu ei ddoniau, a chael ei werthfawrogi, ei barchu a'i ysgogi hyd eithaf ei allu. Mae'r weledigaeth yn cael ei hadlewyrchu'n glir trwy arwyddair a gwerthoedd yr ysgol 'Bydd Wych – Bydd Weithgar', ac wedi ei rhannu'n llwyddiannus â chymuned yr ysgol. Mae staff, rhieni a'r llywodraethwyr yn cydweithio'n effeithiol â'i gilydd i wireddu'r weledigaeth ac mae ei heffaith i'w gweld yn lles a datblygiad y disgyblion.

Caiff y pennaeth ei chefnogi'n effeithiol gan staff medrus, ymroddgar ac egnïol. Mae rolau a chyfrifoldebau'r staff wedi eu diffinio'n briodol, ac mae pob un yn cyflawni eu dyletswyddau yn gydwybodol a phwrpasol. Caiff hyn ei adlewyrchu'n llwyddiannus gan agweddau cadarnhaol y rhan fwyaf o ddisgyblion at fywyd a gwaith yr ysgol. Mae arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelu yn effeithiol ac, o ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn mwynhau eu hamser yn yr ysgol.

Nodwedd gref o'r ysgol yw'r ethos naturiol Gymraeg a Chymreig ac ymdeimlad o falchder disgyblion at yr iaith a'u hardal leol. Mae'r ystod gyfoethog o brofiadau celfyddydol yn gyfrwng effeithiol iawn i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o'u hardal leol a'i chyfoeth o hanes a thraddodiadau.

Mae'r berthynas rhwng yr ysgol a'r rhieni yn gryfder amlwg. Mae'r cydweithio a'r cyfathrebu cyson yn sicrhau bod gan rieni ddealltwriaeth gadarn o'r hyn sy'n digwydd

yn yr ysgol. Mae hyn yn cyfrannu’n effeithiol at eu gallu i gefnogi eu plant adref yn ogystal â’u gallu i gynnig syniadau sy’n cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn yr ysgol. Enghraifft o hyn yw cyfraniad rhieni wrth ddarparu arbenigedd i sicrhau cyfle i ddisgyblion gael noson ‘dan y sêr’.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso cadarn yn ganolog i fywyd a gwaith yr ysgol. Mae’r broses wedi’i seilio ar ystod eang o dystiolaeth sy’n cynnwys arsylwi gwersi, craffu ar waith disgyblion a chynnal teithiau dysgu. Mae’r pennaeth yn sicrhau bod gan yr holl staff rôl weithredol yn y broses. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o gryfderau’r ysgol a’r agweddau sydd angen eu gwella. Mae’r pennaeth ac arweinwyr yr ysgol yn defnyddio canfyddiadau’r broses hunanwerthuso, ynghyd â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, i lunio cyfeiriad strategol clir sy’n canolbwyntio ar wella deilliannau a lles disgyblion. Er enghraifft, mae’r staff wedi adnabod yr angen i wella presenoldeb disgyblion a hefyd i sicrhau bod adborth athrawon yn fwy effeithiol wrth sicrhau bod disgyblion yn gwybod yn well beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith eu hunain.

Mae arweinwyr yn creu diwylliant ac ethos cadarnhaol sy’n hybu a chefnogi dysgu proffesiynol yr holl staff. Defnyddir arbenigedd a phrofiadau unigol staff yn effeithiol wrth ddyrannu cyfrifoldebau cwricwlaidd a hyrwyddo dysgu proffesiynol. Darperir rhaglen o hyfforddiant gwerthfawr sy’n cyd-fynd â blaenoriaethau cyfredol yr ysgol ac mae’r ysgol yn cydweithio’n llwyddiannus â phartneriaid eraill i fodloni blaenoriaethau cenedlaethol, fel gwireddu Cwricwlwm i Gymru a’r diwygiadau yn y ddeddf ADY. Mae’r cyfleoedd hyn yn annog cydweithio effeithiol ag ysgolion eraill y dalgylch, er enghraifft i sicrhau dealltwriaeth gytûn o’r camau cynnydd disgwyliedig wrth i ddisgyblion symud drwy’r ysgol.

Mae aelodau’r corff llywodraethol yn hynod gefnogol i’r ysgol, ac yn ei hadnabod yn dda. Mae’r corff yn deall ac yn cyflawni ei ddyletswyddau’n effeithiol. Mae gan yr aelodau ddealltwriaeth gadarn o flaenoriaethau’r ysgol a’r sail resymegol y tu ôl iddynt. Maent yn cynorthwyo’r ysgol i roi ei strategaeth wella ar waith. Mae llywodraethwyr yn cyfrannu’n briodol at weithgareddau monitro ac mae hyn yn eu helpu i sicrhau bod ganddynt wybodaeth gyfredol am gynnydd yr ysgol wrth ymateb yn synhwyrol i’r meysydd i’w gwella. Maent yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau’n briodol wrth sicrhau bod digon o staff yn yr ysgol i ymateb i anghenion disgyblion. Maent yn adolygu gwariant yn ofalus ac yn cysylltu’n gwariant â blaenoriaethau gwella’r ysgol yn briodol. Defnyddir amrywiaeth o grantiau, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, yn bwrpasol i gefnogi’r ddarpariaeth ac i hyrwyddo lles disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 26/06/2024